Pecynnau gweithgareddau wedi'u rhoi i deuluoedd Dechrau'n Deg

Yn ystod COVID-19 mae Dechrau'n Deg wedi dosbarthu dros 1,750 o becynnau gweithgareddau i blant ifanc yn nheuluoedd Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin i'w defnyddio yn ystod y cyfnod clo.

Roedd pob pecyn yn cynnwys ystod o adnoddau oedd yn briodol i oedran y plant. Fe'u dosbarthwyd mewn blwch y gallai teuluoedd ei ddefnyddio'n flwch 'tap tap', fel y'i defnyddir yn y sesiynau Iaith a Chwarae a gyflwynir gan Dechrau'n Deg. Roedd yr eitemau'n cynnwys llyfrau, teganau anifeiliaid, swigod, paent a deunyddiau celf, pêl, pypedau caneuon, offer i greu playdoh, offer i greu potel ysgwyd, byrddau lotto, creonau a sialc ac amryw ddeunyddiau synhwyraidd a ddyluniwyd i helpu i gadw plant yn frwdfrydig wrth aros gartref.

Bu Heddlu Dyfed Powys yn helpu tîm Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin i ddosbarthu'r adnoddau gan ddefnyddio eu gyrwyr a faniau heddlu. Dywedodd y Prif Arolygydd Thomas Sharville o Heddlu Dyfed Powys:

"Mae'r cynllun Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth pwysig i deuluoedd ifanc yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn falch iawn o weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin trwy gynnig gyrwyr a cherbydau i ddosbarthu pecynnau gweithgaredd Dechrau'n Deg i'n cymunedau."

Dosbarthwyd canllaw yn ogystal â fideos ar yr ap symudol newydd a lansiwyd gan Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin ym mis Ebrill 2020. Roedd y rhain yn dangos sut i ddefnyddio'r gweithgareddau yn y pecynnau.

Dywedodd Eleri Stephens, o Trimsaran bod ei phlant Harper a Sienna Daniels wedi elwa o'r pecynnau:

"Mae'r merched wedi cael oriau o hwyl yn gwneud gweithgareddau, ac roeddent wrth eu bodd yn glynu a gludo, paentio ac yn defnyddio'r playdoh. Mae'r pecynnau hyn yn syniad hyfryd ac wedi dod ar adeg ddelfrydol.